



Panel Unigolion 2005

Canlyniadau o'r don 2



ADRODDIAD CRYNO

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 7



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

AROLWG DILYNOL O ADDYSG BELLACH 2005

© Llywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2006. Fe all detholion o'r cyhoeddiad hwn gael eu hatgynhyrchu at ddibenion anfasnachol, addysgol neu hyfforddiant ar yr amdol bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod ac nad yw'r darganfyddion yn cael eu camliwio. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn (www.cymru.gov.uk).

ISBN Number: 0 7504 8943 X



GfK NOP yw cangen y DU o Grŵp GfK, un o'r 4 prif sefydliad ymchwil marchnata yn y byd. Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan GfK NOP ac mae wedi'i rhannu'n adrannau arbenigol.

Mae'r tîm sy'n gweithio ar y Panel Cyflogwyr yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol ac mae 30 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

RHAGAIR gan Steve Marshall



Mae gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) adnoddau ymchwil cadarn sy'n gallu archwilio materion addysg a dysgu, gan gynnwys rhaglen gynhwysfawr o ymchwil i gwsmeriaid. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau agenda Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio'n fwy ar y dinesydd. Er mwyn moderneiddio dysgu ôl-16, mae angen i ni wrando ar ddinasyddion i ddeall eu safbwyntiau am ddysgu.

Sefydlwyd y Panel Unigolion i ddeall yr hyn sy'n cymhell pobl i ddysgu er mwyn ehangu cyfranogiad mewn dysgu. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau ail gyfnod y Panel Unigolion. Drwy gyfweled yr un unigolion eto, rydym yn gallu olrhain sut mae cyfranogiad mewn dysgu ac agweddau dysgwyr a'r rheini nad ydynt yn ddysgwyr yn newid dros gyfnod. Mae hyn wedi'n galluogi i nodi'r hyn sy'n ysgogi'r awydd i ddysgu a beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dysgu. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i addasu a marchnata mentrau dysgu yn strategol i annog pobl i ddechrau dysgu yn y dyfodol.

Rwy'n falch o nodi bod dros hanner yr ymatebwyr wedi ymgymryd â rhyw fath o ddysgu dros y deuddeg mis diwethaf, gyda llawer ohono'n gysylltiedig â'u swydd. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ymgymryd â dysgu oedd gwella cyflog a chwrdd â phobl newydd. Mae'r canfyddiad bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod dysgu wedi'u helpu i gyflawni'u dyheadau yn un calonogol – dyma'r neges y mae angen i ni ei marchnata i gynulleidfa ehangach er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn dysgu.

Hoffwn ddiolch i'r unigolion sy'n parhau i gyfrannu i'r ymchwil pwysig hwn, gan fod eu safbwyntiau ar ddysgu yn ein helpu i lunio a marchnata dysgu yn y dyfodol.

Steve Marshall,

Cyfarwyddwr,

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.





Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r data sy'n codi o ail gam y Panel Unigolion yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2003 a mis Ionawr 2004, cyfwelwyd â chyfanswm o 2,000 o unigolion ynghylch eu hagweddau tuag at ddysgu a'u profiadau ohono, a chyflwynodd hyn ddarlun o Gymru gyfan. Yn 2005, cyfwelwyd eto â'r unigolion a roddodd ganiatâd (1,309 i gyd), ac mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y newidiadau mwyaf arwyddocaol yn agweddau ac ymddygiad y 1,309 o unigolion hyn dros gyfnod o flwyddyn.

Dysgu ffurfiol

Y darlun cyffredinol yn 2005: Roedd ychydig yn llai na hanner (49%) yr ymatebwyr heb ymgymryd ag unrhyw ddysgu, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, ers arolwg 2004. Roedd prif ffocws y dysgu yr ymgymeryd ag ef yn gysylltiedig â swydd, fel a ganlyn:

- Wedi bod ar gyrsiau a luniwyd i'ch helpu i ddatblygu sgiliau y gallech eu defnyddio mewn swydd efallai (24%).
- Wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau yn eich maes, e.e. darllen llyfrau, lawlyfrau neu fynychu seminarau (17%).
- Wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gweithle, e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (15%).
- Wedi derbyn hyfforddiant dan arolygiaeth tra mewn swydd (12%).

Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi ymgymryd â dysgu ychwanegol neu newydd wedi astudio amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y mwyaf poblogaidd oedd Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (28%) ac iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal (24%).

Roedd dros chwech o bob deg (62%) a oedd wedi gwneud unrhyw fathau ychwanegol neu newydd o hyfforddiant neu ddysgu yn y 12 mis diwethaf wedi ymgymryd â chysiau a luniwyd i arwain at gymhwyster neu dystysgrif. Adroddodd bron i ddau o bob deg (18%) y

luniwyd eu cwrs i arwain at CGC, ac adroddodd ychydig dros un o bob deg (12%) y'i lluniwyd i arwain at gymhwyster proffesiynol galwedigaethol. Yn yr un modd, roedd un o bob deg (10%) wedi cael tystysgrif gyffredinol i ddangos presenoldeb/cyflawniad.

Nododd pedwar o bob deg (40%) o'r ymatebwyr eu bod heb ennill y cymhwyster roeddent am ei ennill drwy'r cwrs. Mae'n werth nodi, er y gallai hynny, mewn rhai achosion, fod oherwydd iddynt fethu'r cwrs, gallai hefyd fod yn wir nad oedd yr ymatebwyr wedi cwblhau'r cwrs eto. Roedd o leiaf 4% o'r ymatebwyr wedi ennill y cymwysterau canlynol:

- CGC (10%)
- Tystysgrif gyffredinol i ddangos presenoldeb/cyflawniad (8%)
- Cymhwyster proffesiynol galwedigaethol arall (6%)
- Cymhwyster City and Guilds (4%)

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall:

Wrth ystyried gweithgareddau dysgu ffurfiol o'r naill flwyddyn i'r llall, ni fu llawer o newid. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol is o ymatebwyr wedi bod ar gyrsiau cyffredinol yn y gwaith, e.e. sefydlu, iechyd a diogelwch neu hyfforddiant cymorth cyntaf (15% o'i gymharu â 22% yn 2004), neu wedi treulio amser yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn eu maes (17% o'i gymharu ag 21% yn 2004).

O ran mathau o gymwysterau a astudiwyd, bu gostyngiad sylweddol rhwng 2004 a 2005 yn nifer yr ymatebwyr a astudiai am TGAU (9% o'i gymharu â 4% yn 2005) a thrwyddedau gyrru (6% o'i gymharu ag 1% yn 2005).

Roedd gwahaniaethau o ran rhyw yn amlwg.

- Roedd dynion yn llai tebygol yn 2005 nag yn 2004 o fod wedi ymgymryd â chysiau a luniwyd i arwain at lefel UA (1% o'i gymharu â 5% yn y drefn honno), Safon Uwch (3% o'i gymharu â 7%), gradd (6% o'i gymharu â

10%) a chymhwyster City and Guilds (7% o'i gymharu ag 11%).

- Ar y llaw arall, roedd menywod yn llai tebygol yn 2005 o fod wedi ymgymryd â chwrs a fyddai'n arwain at CGC nag yn 2004 (14% a 25% yn y drefn honno) ond yn debycach o fod wedi ymgymryd â chymhwyster proffesiynol academaidd arall (7% o'i gymharu â 3%).

Dysgu Anffurfiol (dysgu gyda phlant a/neu addysgu sgiliau newydd i'ch hun)

Gweithgareddau gyda phlant 3-7 oed:

Y darlun cyffredinol yn 2005: Parhaodd rhieni i ymgymryd â lliaws o weithgareddau dysgu gyda phlant 3-7 oed. Roedd y mwyafrif helaeth o rieni wedi edrych ar lyfrau/darllen straeon gyda'u plant neu wedi chwarae gyda'u plant (96% a 94% yn y drefn honno).

Roedd bron i naw ym mhob deg wedi:

- eu helpu i ddarllen (88%)
- eu helpu gyda thynnu lluniau, paentio neu greffttau (88%)
- eu helpu i adnabod a dysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau (86%)

Roedd ychydig dros dri chwarter wedi helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol arall (79%) ac wedi dysgu eu plentyn am fyd natur, e.e. wrth ymweld â sw, mynd allan i'r wlad neu i fferm (78%). Roedd nifer sylweddol is wedi mynd â'u plentyn i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (48%), wedi helpu fel gwirfoddolwr ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn (25%), neu wedi mynychu cwrs gyda'u plentyn, e.e. cwrs llythrennedd (7%).

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall:

Arhosodd bron i bob math o weithgaredd yr ymgymryd â nhw gyda phlant 3-7 oed yr un peth rhwng 2004 a 2005. Fodd bynnag, roedd rhieni'n llai tebygol o fod yn helpu eu plant gyda thynnu lluniau, paentio neu greffttau yn 2005.

Roedd rhai newidiadau yng ngraddfa'r gweithgarwch yn ôl rhyw. Roedd nifer uwch o fenywod yn ymgymryd â gweithgareddau fel darllen straeon/ edrych ar lyfrau, helpu eu plentyn i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau, neu helpu fel gwirfoddolwr ym meithrinfa, cylch chwarae neu ysgol eu plentyn. Roedd canran is o ddynion yn chwarae gyda'u plentyn, yn eu helpu gyda thynnu lluniau, paentio neu greffttau, eu helpu i adnabod neu ddysgu am lythrennau, rhifau neu siapiau, eu helpu gyda gwaith ysgol, ac yn dysgu eu plentyn am fyd natur.

Canfyddiadau ar gyfer gweithgareddau gyda phlant 8 oed a throsodd

Y darlun cyffredinol yn 2005: Unwaith eto, roedd lefelau gweithgarwch uchel ymysg rhieni a phlant 8 oed a throsodd.

Roedd lleiafrif (6%) heb wneud unrhyw un o'r gweithgareddau a grybwyllwyd gyda'u plentyn, ond roedd dros chwech o bob deg wedi:

- helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol (82%)
- trafod y newyddion neu raglen ddogfen gyda'u plentyn (70%)
- helpu eu plentyn i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y rhyngrwyd (67%)
- helpu eu plentyn i ddarllen neu gyfeirio at lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd (63%)

Roedd oddeutu hanner wedi mynychu digwyddiad chwaraeon gyda'u plentyn (56%), wedi mynd â nhw i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol (52%) neu wedi trafod crefydd gyda'u plentyn (47%). Llai byth oedd wedi rhoi cyngor i'w plentyn ar ddysgu, hyfforddiant neu opsiynau swydd (39%), wedi helpu fel gwirfoddolwr yn ysgol eu plant (15%) neu wedi mynychu cwrs gyda'u plant (2%).

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall:

Roedd canran y rhieni a oedd wedi mynd â'u plant i amgueddfa, oriel neu adeilad hanesyddol



Tabl 1: Crynodeb o weithgareddau a wnaed gyda phlant/ rhwystrau i wneud gweithgareddau gyda phlant

	3 – 7 oed	8 oed a throsodd
Sylfaen	Yr holl ymatebwyr a chanddynt blant 3-7 oed sy'n gwneud gweithgareddau gyda nhw (208)	Yr holl ymatebwyr a chanddynt blant 8 oed a throsodd sy'n gwneud gweithgareddau gyda nhw (289)
Cyfran y rhieni a wnaeth weithgareddau gyda'u plant ac a hoffai wneud mwy o weithgareddau gyda'u plant	81%	73%
Gweithgareddau penodol y byddai'n well gan rieni wneud mwy ohonynt (y rhai a grybwyllwyd amlaf)	Byddai dros un o bob pedwar wedi hoffi dysgu'u plant am fyd natur (46%), helpu eu plant i ddarllen (46%), edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon i'w plant (45%), chwarae gyda nhw (45%) neu eu helpu gyda thynnu lluniau, paentio neu greffttau (40%).	Roedd dros dri o bob deg naill ai am helpu eu plant gyda gwaith ysgol (38%) neu eu helpu i chwilio am wybodaeth ar gyfrifiadur neu ar y rhyngrwyd (32%). Roedd dynion yn arbennig o debygol o nodi yr hoffent wneud mwy o'r gweithgareddau hyn.
Rhwystrau (<i>Sylwer: sylfaen y cwestiwn hwn yw'r holl ymatebwyr a chanddynt blant yn y ddau grŵp oedran a hoffai wneud mwy o weithgareddau gyda'u plant</i>)	Nododd dros un o bob tri (34%) nad oedd dim yn eu hatal rhag gwneud mwy o'r gweithgareddau hyn, ond nododd nifer debyg (35%) fod ymrwymadau yn y gwaith yn rhwystr.	Unwaith eto, pan ofynnwyd i rieni beth oedd yn eu hatal rhag gwneud mwy o'r gweithgareddau hyn gyda'u plant, nododd nifer sylweddol (24%) nad oedd dim yn eu hatal rhag gwneud. Fodd bynnag, ymrwymadau yn y gwaith (39%) a'r cartref (32%) oedd y ffactorau mwyaf.

wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol (47% yn 2004 a 52% yn 2005).

Nid oedd unrhyw newidiadau penodol mewn gweithgarwch rhwng y ddwy flwyddyn mewn unrhyw is-grŵp.

Cyfranogiad cynyddol

Mae dadansoddiad 2005 yn dangos bod parodrwydd i gymryd rhan mewn rhagor o ddysgu gyda phlant o bob oedran ac i'w hwyluso. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yr hoffent wneud mwy o weithgareddau gyda'u plant. Mae'r tabl nesaf yn nodi'r gyfran a fydda i'n ymgymryd â rhagor o ddysgu gyda'u plant, neu y gellid eu hannog i wneud hynny, beth yn benodol hoffent wneud mwy ohono a beth sy'n eu hatal rhag gwneud hynny ar hyn o bryd.

Mae'n ddiddorol nodi'r canlynol wrth gymharu oedran plant rhwng rhieni a hoffai wneud rhagor o weithgareddau. Er i 34% o'r rhai a chanddynt blant 3-7 oed ddweud nad oes dim yn eu hatal, gostyngodd y ffigur hwn i 24% o'r rhai a chanddynt blant hŷn. Roedd ymrwymadau yn y gwaith a'r cartref yn rhwystr mwy sylweddol i'r rhai a chanddynt blant hŷn. Mae'r awgrym bod diffyg amser ymysg ymatebwyr i'w roi i ddysgu neu ymrwymadau i ddilyn diddordebau eraill yn thema sy'n codi drwy gydol yr adroddiad hwn. Ymddengys bod rhwystr amser yn un sylfaenol i fynd i'r afael ag ef wrth geisio annog unigolion i ymgymryd â dysgu ychwanegol o unrhyw natur.

Gwella gwybodaeth/addysgu eich hun

Y darlun cyffredinol yn 2005: O ran ymatebwyr yn gwella'u gwybodaeth eu hunain neu'n addysgu sgil newydd i'w hunain, dim ond pedwar o bob deg (42%) oedd wedi gwneud hynny yn y pedair wythnos flaenorol. Ymysg y rhai a oedd wedi gwella'u gwybodaeth/ addysgu rhywbeth i'w hunain yn y pedair wythnos flaenorol, y brif ffordd o'u haddysgu eu hunain oedd drwy ddarllen deunydd wedi'i argraffu fel

llyfrau, cyfnodolion neu lawlyfrau (78%) neu wybodaeth o'r rhyngwyd (51%).

Cyfleoedd dysgu yn y gwaith

Y darlun cyffredinol yn 2005: Ym mis Rhagfyr 2005, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr (67%) eu bod yn cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd bresennol. Teimlai bron i ddau o bob tri fod eu cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi (66%) a chytunai ychydig yn llai (58%) fod ganddynt amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr a oedd yn anfodlon nad oedd eu potensial yn cael ei gydnabod (dywedodd 40% nad oedd eu swydd bresennol yn gwneud y gorau o'u galluoedd a'u rhinweddau personol, ac roedd 33% yn cytuno nad oedd ganddynt gyfle i ddatblygu). Dywedodd ychydig dros dri o bob deg (32%) o'r ymatebwyr nad oedd pobl yn eu swyddogaeth hwy yn cael cynnig llawer o hyfforddiant.

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall: Ar y cyfan, ni newidiodd y sefyllfa ryw lawer o ran cyfleoedd yn y gwaith o'r naill flwyddyn i'r llall; yr agweddau mwyaf cyson dros amser oedd:

- bod eu cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi (roedd 78% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn y llynedd yn gwneud eto yn 2005)
- bod ymatebwyr yn cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'w swydd (roedd 74% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 yn gwneud eto yn 2005)

Bu sawl newid ymysg is-grwpiau penodol tua'r cadarnhaol a sawl newid tua'r negyddol; ymysg y rhain roedd bod grŵp dosbarth cymdeithasol AB (SCG) yn llawer mwy cadarnhaol ynghylch llawer o'r datganiadau a bod pobl dan 24 oed yn fwy negyddol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb.

Agweddau tuag at ddysgu

Y darlun cyffredinol yn 2005: O ran mwynhad, hyder a chymhelliant, teimlai'r mwyafrif o'r



ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu ynddo'i hun (87%). Roedd y datganiad arall y cytunwyd ag ef i raddau helaeth yn ymwneud â hyder ynghylch dysgu sgiliau newydd (roedd 77% yn cytuno i ryw raddau â'r datganiad hwn). Fodd bynnag, roedd chwarter (25%) yn cytuno nad oeddent yn teimlo'n hyderus mewn amgylchedd dosbarth, a theimlai tri o bob deg (30%) nad oedd ganddynt y cymhelliant i ddilyn cwrs.

Roedd ymdeimlad o hyd bod rhai ymatebwyr yn amharod i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu sy'n gysylltiedig â swydd (yn nhermau amser ac arian); cytunai dros hanner (53%) na ddylent orfod talu a chytunai bron i chwarter (23%) na ddylent orfod rhoi o'u hamser eu hunain i wneud.

Cytunai llai na thri ym mhob deg (28%) o'r ymatebwyr nad oedd digon o gymorth a chynghor ynghylch y mathau o ddysgu y gall pobl eu gwneud.

Er bod nifer fechan iawn o'r ymatebwyr (13%) yn cytuno nad oedd gan weddill eu teuluoedd eu hunain ddiddordeb mewn dysgu, dim ond pedwar o bob deg (38%) a ddywedodd eu bod yn adnabod llawer o bobl yn eu hardaloedd a oedd yn dysgu (sylwer: mae 'ardal' yn cyfeirio at ardal ddaearyddol neu leol).

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall: Ni fu llawer o newid mewn agweddau cyffredinol at ddysgu o'r naill flwyddyn i'r llall. Yr unig newid sylweddol oedd un cadarnhaol ynghylch faint o wybodaeth a chynghor a oedd ar gael.

Wrth ymchwilio i agweddau o'r naill flwyddyn i'r llall, dangosodd y data mai'r agweddau mwyaf cyson oedd:

- bod dysgu'n bleserus ynddo'i hun (roedd 90% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn y llynedd yn gwneud hynny eto yn 2005)
- Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd (roedd 87% o'r rhai a oedd yn cytuno â hyn yn 2004 yn gwneud hynny eto yn 2005)

Ymddengys bod hyn yn awgrymu bod mwynhad mewn dysgu a hyder wrth ymgymryd â dysgu yn aros yn gymharol sefydlog yn yr unigolyn, ar ôl eu sicrhau i gychwyn. Yn ei dro, mae hyn yn awgrymu mai dim ond i'r grwpiau hynny nad ydynt eisoes yn cytuno â'r datganiadau hyn y mae angen marchnata'r negeseuon hyn.

Mae'r tabl nesaf yn tynnu sylw at yr holl grwpiau lle bu newid sylweddol am i fyny neu i lawr mewn agweddau cadarnhaol neu negyddol. Roedd rhai newidiadau cadarnhaol iawn yn agwedd pobl dan 24 oed tuag at dalu am ddysgu sy'n gysylltiedig â swydd ac ymgymryd â dysgu sy'n gysylltiedig â swydd yn eu hamser eu hunain. Ymddengys bod ymatebwyr nad ydynt yn gweithio yn fwy hyderus nag oeddent y llynedd ynghylch dysgu sgiliau newydd.

O'r datganiadau newydd a ychwanegwyd yn 2005, dangosodd y data fod un o bob pump o'r ymatebwyr yn betrus oherwydd safon y gwaith sydd ei angen i ddysgu (yn debycach o fod yn fenywod ac yn ymatebwyr hŷn). Roedd gan ryw un o bob tri o'r ymatebwyr ormod o gyfrifoldebau yn y gwaith neu gartref i wneud mwy o ddysgu.

Dangosodd y data hefyd, er bod ychydig dros dri chwarter o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn mwynhau her newydd, y cytunai ychydig dros chwech o bob deg (62%) o'r ymatebwyr eu bod yn hoffi cadw at drefn reolaidd. Gan hynny (roedd ychydig o orgyffwrdd lle roedd yr ymatebwr yn cytuno â'r ddau ddatganiad) awgrymodd y data naill ai:

- bod angen i'r 'her newydd' effeithio ychydig iawn ar feysydd eraill er mwyn peidio ag amharu ar y drefn; neu
- bod mwynhau her, yn eu barn nhw, yn rhinwedd personol, ond nad oedd o reidrwydd yn arwain at weithredu bob tro.

Roedd amser i ymlacio yn bwysig (cytunodd chwech o bob deg fod angen llawer o hwn arnynt). Dywedodd pedwar o bob deg o'r ymatebwyr na fyddent yn derbyn cyfrifoldebau

Tabl 2: Crynodeb o newidiadau mewn agweddau tuag at gyfleoedd dysgu yn y gwaith

	Newid sylweddol tuag at gytuno'n fwy	Newid sylweddol tuag at lefel is o gytuno
Rwy'n cael cymaint o hyfforddiant ag sydd ei angen i'm swydd bresennol		Dynion Dan 24 oed 35-44 oed Social Class Group DE
Rydw i'n teimlo bod fy nghyflogwr yn fy ngwerthfawrogi	Dynion SCG AB	
Mae gen i amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, nid yn unig rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'm swydd bresennol	Social Class Group DE	Dynion 35-44 oed SCG C2
Rydw i'n teimlo nad yw fy swydd bresennol yn gwneud y gorau o'm galluoedd a'm rhinweddau personol*	dan 24 oed	Menywod 25-34 oed SCG AB
Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael llawer o gyfle i ddatblygu*	dan 24 oed	25-34 oed Mewn cyflogaeth ran-amser SCG AB
Dydy pobl yn fy swyddogaeth i ddim yn cael cynnig llawer o hyfforddiant*	Social Class Group DE	

Nodyn: Ni ddangosir is-grwpiau yn y tabl mewn unrhyw drefn benodol.

* datganiadau negyddol, felly mae newidiadau tuag at gytuno'n llai yn ganlyniad cadarnhaol



newydd os nad oedd yn rhaid iddynt. Mae'r canfyddiadau hyn, unwaith eto, yn cysylltu ag unigolion sy'n amharod i ddefnyddio unrhyw amser rhydd sydd ganddynt am unrhyw beth sy'n achosi mwy o gyfrifoldebau neu bwysau.

Fel y nodwyd uchod, ymddangosodd pwysau amser i'r unigolyn dro ar ôl tro. Ymddengys bod angen mynd i'r afael â'r rhwystr canfyddedig, neu wirioneddol hwn er mwyn denu mwy o bobl i ddysgu.

Rhwystrau i ddysgu

Y darlun cyffredinol yn 2005: Y prif reswm dros ddiffyg cyfranogi yn 2005 oedd prinder amser (24%) neu bwysau gwaith/oriau gwaith (12%). Roedd dyletswyddau teuluol a gofal plant, gan gynnwys gofalu am bobl hŷn, hefyd yn ffactor mawr a oedd yn rhwystro cyfranogiad (18%). Roedd cysylltiad cryf rhwng y rhesymau a roddwyd a rhyw a statws gwaith yr ymatebwr.

- Roedd menywod (28%) yn sylweddol fwy tebygol na dynion (7%) o nodi bod dyletswyddau teuluol neu ofal plant yn rhwystrau i ddysgu.
- Ymysg dynion (15%), roedd pwysau gwaith neu oriau gwaith yn fwy o ystyriaeth nag i fenywod (8%).
- Roedd ymatebwyr a oedd yn gweithio yn debycach na'r rhai nad oeddent yn gweithio o nodi prinder amser a phwysau gwaith neu oriau gwaith.

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall:

Nid oedd newid yn llawer o'r rhwystrau a grybwyllwyd dros y ddau gam. Fodd bynnag, aeth dyletswyddau teuluol neu ofal plant yn fwyfwy o rwystr i ddysgu – roedd menywod yn arbennig o debygol o nodi bod hyn yn rhwystr. Daeth dynion yn debycach o nodi nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymgymryd â dysgu. Fodd bynnag, dros y ddau gam, roeddent wedi dod yn fwyfwy tebygol o fod wedi ystyried ymgymryd â dysgu yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cymhelliannau i ddysgu

Y darlun cyffredinol yn 2005: Roedd y cymhelliannau cyffredinol i ddysgu yn gysylltiedig â gwaith yn 2005.

Y ddau reswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddewis eu prif bwnc neu sgil oedd i'm cynorthwyo yn fy swydd bresennol (33%) a/neu i gael cymhwyster cydnabyddedig (9%).

Ymhlith yr ymatebion eraill a grybwyllwyd gan rhwng 5% ac 8% oedd:

- i hybu fy natblygiad fel person (7%)
- i gael swydd (7%)
- mae gen i ddiddordeb yn y pwnc/diddordeb personol (7%)
- i newid y math o waith rwy'n ei wneud (6%)
- i fwynhau fy hun/mae'n rhoi pleser i mi (5%)

Holwyd yr ymatebwyr yn 2005 hefyd ynghylch effeithiau amserlenni a'r daith i'r darparwr:

- Yn achos dau draean (65%), nid oedd yr amserlen yn dylanwadu ar eu penderfyniad, ond yn achos un o bob deg (12%) roedd yr amserlen yn dylanwadu llawer.
- Byddai hanner y rhai a fynychodd gwrs yn rhan-amser gyda'r nos yn ystod yr wythnos heb fynychu pe bai wedi'i gynnal ar amser gwahanol.
- O ran amser teithio i gyrraedd darparwr y cwrs, roedd ychydig dros bedwar o bob deg (44%) yn barod i deithio hyd at hanner awr, un o bob pedwar ar ddeg (7%) hyd at 45 munud, un o bob saith (15%) hyd at awr, a thri o bob deg (30%) awr neu fwy

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr i ba mor fuddiol oedd eu dysgu iddyn nhw yn eu bywydau proffesiynol, personol a chymdeithasol. Ystyriwyd bod dysgu yn fuddiol am agweddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn hytrach na'u bywyd teuluol neu gymdeithasol. Nododd dau o bob tri (63%) fod y dysgu naill ai ddim yn fuddiol iawn neu ddim yn fuddiol o gwbl i'w bywyd teuluol neu gymdeithasol. Roedd hwn yn sgôr cymharol isel o'i gymharu

Tabl 3: Crynodeb o newidiadau mewn agweddau tuag at ddysgu yn gyffredinol

	Newid sylweddol tuag at gytuno'n fwy	Newid sylweddol tuag at lefel is o gytuno
Rydw i'n hyderus am ddysgu sgiliau newydd	Social Class Group C2	Social Class Group AB
Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa*	35 – 44 55 plus Males Employed F/T Social Class Group C2	Dan 24 oed 25-34 oed Ddim yn gweithio
Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu		Menywod Dan 24 oed 25-34 oed Ddim yn gweithio Social Class Group C1
Nid oes digon o gymorth a chynghor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl ymgymryd â hwy*		Newidiadau tuag at lefel is o gytuno ar draws pob grŵp
Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain*		Menywod 55+ 35-44 oed Mewn cyflogaeth Rh/A Wedi ymddeol Social Class Group AB
Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs*	Menywod 25-34 oed 55+ Mewn cyflogaeth ALI Wedi ymddeol Social Class Group AB Social Class Group C1	

Nodyn: dim ond y rhai nad oeddent wedi ymddeol neu'n anabl i weithio a holwyd.

* datganiadau negyddol, felly mae newidiadau tuag at gytuno'n llai yn ganlyniad cadarnhaol



â'r manteision eraill. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd dros wyth o bob deg yn ystyried bod y dysgu naill ai'n eithaf buddiol neu'n fuddiol iawn i'w datblygiad personol eu hunain (89%) neu i'w datblygiad mewn swydd/proffesiynol (86%).

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall:

Rhwng 2004 a 2005, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymatebwyr a nododd iddynt ddechrau dysgu i'w helpu yn eu swydd bresennol (25% yn 2004 i 33% yn 2005).

Yn galonogol, cynyddodd mynychder yr effeithiau sy'n gysylltiedig â gwaith o'r naill flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, dysgais sgiliau newydd ar gyfer y swydd oedd gen i ar y pryd (30% yn 2004 i 36% yn 2005) a gallwn wneud fy ngwaith yn well (33% yn 2004 i 37% yn 2005). Fodd bynnag, dywedodd llai o'r ymatebwyr iddynt gael swydd newydd (13% yn 2004 i 4% yn 2005) neu iddynt gael codiad cyflog (10% yn 2004 i 5% yn 2005).

Tabl 4: Crynodeb o grwpiau lle roedd cynnydd sylweddol yn y gyfran a grybwyllodd bob dyhead yn 2005 o'i gymharu â 2004

Dyhead	Grwpiau sy'n dangos cynnydd sylweddol yn y % sy'n cael ei grybwyll o'r naill flwyddyn i'r llall		
Cael swydd	Ddim yn gweithio		
Cael cymhwyster cydnabyddedig	Gweithio'n rhan-amser		
Gwneud yn well yn fy ngwaith presennol	Dynion	Gweithio'n amser llawn	
Cael codiad cyflog	Dynion	Menywod	Gweithio'n amser llawn
Cael mwy o foddhad o'm gwaith	Dynion		
Datblygu fy hun fel person	Gweithio'n amser llawn	Gweithio'n rhan-amser	
Gwella fy hunan-hyder	Menywod		
Cyfarfod pobl	Dan 24 oed	Wedi ymddeol	Gweithio'n rhan-amser
Helpu fy mhlant gyda'u dysgu/gwaith cartref	Wedi ymddeol		

D.S.: Ni ddangosir isgrwpiau yn y tabl mewn unrhyw drefn arbennig

Dyheadau a chynlluniau am y dyfodol

Dyheadau cyffredinol

Y darlun cyffredinol: Roedd y dyheadau am y flwyddyn ganlynol yn amrywio. Yr ymateb mwyaf cyffredin, ymysg ychydig dros draean (36%) o'r ymatebwyr, oedd cael codiad cyflog. Roedd gan yr ymatebwyr ddiddordeb mewn datblygiad personol, gydag oddeutu draean yn dymuno cyfarfod pobl (33%), datblygu eu hunain fel person (32%), dysgu sgil newydd (30%), helpu eu plant neu wyrion/wyresau gyda'u dysgu neu eu gwaith cartref (28%) a gwella'u hunanhyder (26%).

At ei gilydd, crybwyllwyd dyheadau i ddatblygu gyrfa gan lai nag un o bob wyth o'r ymatebwyr – newid y math o waith rydw i'n ei wneud (13%), cael dyrchafiad (13%), cael swydd (9%) a chael swydd gyda chyflogwr gwahanol (7%).

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall: Roedd y dymuniad am godiad cyflog wedi cynyddu rhwng 2004 (32%) a 2005 (36%). Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, roedd y dyheadau, fel yn 2004, yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol.

Roedd yr ymatebwyr yn debycach o nodi yr hoffent gyfarfod pobl newydd (23% yn 2004 a 33% yn 2005) a datblygu fel person (27% yn 2004 a 32% yn 2005) yn y flwyddyn nesaf. Yn gadarnhaol, roedd nifer yr ymatebwyr a nododd nad oes ganddynt unrhyw ddyheadau am y flwyddyn nesaf wedi gostwng (18% yn 2004 a 12% yn 2005).

Yn gadarnhaol, roedd ymatebwyr a chanddynt ddyheadau am y flwyddyn nesaf ac nad oeddent wedi gwneud unrhyw ddyddysgu yn y flwyddyn ddiwethaf yn fwyfwy tebygol o ystyried bod dysgu'n bwysig i'w datblygu eu hunain, a hynny'n broffesiynol ac yn bersonol.

O archwilio'r newid mewn dyheadau ymysg yr is-grwpiau o'r naill flwyddyn i'r llall, bu rhai codiadau sylweddol yn yr hyn yr hoffai ymatebwyr ei gyflawni. Dangosir hyn yn Tabl 4.

Tabl 5: Crynodeb o ddyheadau lle dywedodd cyfran sylweddol uwch o'r ymatebwyr y byddai dysgu'n 'helpu'n fawr' i gyflawni pob dyhead yn 2005 o'i chymharu â 2004

Dyheadau lle bu cynnydd sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall yn yr ymatebwyr a ddywedodd y byddai dysgu'n 'helpu llawer' i gyflawni'r nodau hyn	
Dyheadau sy'n gysylltiedig â swydd/gyrfa personol	Dyheadau sy'n gysylltiedig â datblygiad
Newid y math o waith a wneir	Dechrau ar gwrs dysgu yn y dyfodol
Cael swydd newydd	Cyfarfod pobl
Cael codiad cyflog	Gwella fy hunan-hyder
	Datblygu fy hun fel person



Mae'n bwysig nodi bod y ganran a nododd nad oedd unrhyw ddyheadau ganddynt yn y rhestr wedi gostwng yn sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall yn y grŵp a oedd wedi ymddeol.

Yn yr un modd â'r llynedd, pan ofynnwyd faint y byddai dysgu, yn eu barn nhw, yn eu helpu i gyflawni eu dyheadau, roedd ymatebwyr yn debycach o ddweud y byddai'n 'helpu llawer' yn achos y dyheadau sy'n gysylltiedig â swydd/gyrfa. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bu cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yn y tebygolrwydd o ddweud y byddai dysgu'n helpu i gyflawni llawer o'r dyheadau a nodwyd. Mae'r tabl canlynol yn dangos ym mha feysydd roedd hyn yn wir ym meysydd proffesiynol a phersonol bywyd.

Tebygolrwydd o ddysgu eto yn y tair blynedd nesaf

Y darlun cyffredinol: Yn 2005, dywedodd ychydig dros chwech o bob deg (62%) o'r ymatebwyr y byddent naill ai'n debygol iawn (35%) neu'n eithaf tebygol (27%) o gychwyn dysgu yn y 3 blynedd nesaf.

Y manylion o'r naill flwyddyn i'r llall: Ar y cyfan, nid oedd newid yn y tebygolrwydd o gychwyn dysgu yn y 3 blynedd nesaf ar draws y ddau gam. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhai grwpiau, fel menywod, pobl dan 24 oed, gweithwyr rhan-amser a'r rhai yn y grwpiau dosbarth cymdeithasol AB neu C1 wedi dod yn debycach o ddweud eu bod naill ai'n debygol iawn neu'n eithaf tebygol o gychwyn dysgu yn y 3 blynedd nesaf.

Y pwyntiau trafod allweddol a gododd o'r ymchwil

Mae'r paragraffau sy'n weddill isod yn mynd ar drywydd rhai o'r pwyntiau allweddol ac yn eu cyflwyno fel cwestiynau i Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes A Sgiliau (AADGOS) a phartneriaid eu harchwilio ymhellach yn nhermau'r negeseuon y byddent o bosibl yn eu tynnu o'r arolwg a sut y gallant ddatblygu a chyflwyno dysgu ledled Cymru.

'Gormod i'w wneud, dim digon o amser'

Sut mae unigolion yn rheoli eu hamser y tu allan i'r gwaith a sut gall AADGOS u ddod o hyd i'r potensial i gynyddu cyfranogiad mewn dysgu? Mae cymaint o achosion yn yr adroddiad hwn lle mae ymatebwyr yn nodi bod 'amser' yn rhwystr i ddysgu eu hunain a/neu'n rhwystr i wneud rhagor o weithgareddau gyda'u plant. Cawsom hefyd fod gan gyfran sylweddol o ymatebwyr broblemau wrth reoli cyfrifoldebau yn y gwaith a'r cartref. Mater ymylol, ond un sy'n anorfod gysylltiedig, yw'r agwedd bennaf ymysg y mwyafrif o ymatebwyr bod angen llawer o amser arnynt i ymlacio a'u bod yn hoff o drefn reolaidd.

Cawn yr argraff, bron iawn, fod cyfran sylweddol o unigolion o'r farn bod amser yn adnodd neu'n 'foeth' nad oes ganddynt ddim ohono. Mae hwn yn rhwystr allweddol i'w chwalu ac yn her i AADGOS oherwydd, mewn gwirionedd, efallai mai ychydig iawn o amser rhydd sydd gan unigolion i'w fuddsoddi mewn digwyddiad dysgu.

Yn galonogol, roedd mwy o ymatebwyr nag y llynedd yn cytuno bod dysgu'n eu helpu i gyflawni eu dyheadau ac efallai mai'r fantais hon a allai gael ei phwysleisio. Yr ymatebwyr â pheth amser rhydd ganddynt ond a oedd yn anfodlon rhoi llai o amser i ymlacio yw'r rhai y mae angen eu darbwylo o'r manteision.

Mae'r ymchwil eleni'n dangos bod unigolion yn gweld manteision dysgu'n gysylltiedig â gyrfa a datblygiad personol, mewn cyferbyniad â chymharol ychydig a nododd y manteision i fywyd teuluol a chymdeithasol. Un cam posibl efallai fyddai parhau i brofi'r manteision i yrfa a datblygiad personol ar yr un pryd â dangos yr effeithiau cadarnhaol ar fywyd teuluol a chymdeithasol.

Canolbwyntio ar newid agweddau tuag at ddysgu sy'n newid dros amser

Wrth ymchwilio i'r agweddau tuag at ddysgu y mae'r ymchwili wedi'u holrhain dros amser, ymddengys bod hyder a mwynhau dysgu'n gyson iawn. Er bod cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiadau eraill am agwedd wedi aros yr un peth o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'r mathau o ymatebwyr sy'n cytuno wedi newid. Yn achos y datganiadau canlynol am agweddau, cawsom broffil unigolion sydd â safbwynt cadarnhaol/ negyddol yn wahanol iawn i'r llynedd:

- Wela i ddim pam ddylwn i dalu am ddysgu sy'n ymwneud â'm swydd neu fy ngyrfa
- Rydw i'n adnabod llawer o bobl yn f'ardal i sy'n dysgu
- Ni ddylid disgwyl i bobl ddysgu sgiliau newydd ar gyfer eu gyrfaoedd yn eu hamser eu hunain
- Does gen i mo'r ysgogiad i ddilyn cwrs

Gan hynny, mae'r data'n awgrymu bod rhai agweddau tuag at ddysgu yn fwy sefydlog nag agweddau eraill ym meddwl unigolyn dros gyfnod penodedig. Mae'r agweddau sy'n gysylltiedig â lefelau hyder wrth ddysgu a mwynhau dysgu yn gymharol gyson dros amser, tra bod agweddau tuag at gyllido a chymryd cyfrifoldeb personol dros ddysgu sy'n gysylltiedig â gwaith heb fod.

Cynnydd yn y canfyddiad bod cymorth a chyngor ar gael

Wrth olrhain y cytundeb â'r datganiad 'Nid oes digon o gymorth a chyngor ar gael am y gwahanol fathau o ddysgu y gall pobl eu gwneud', bu gostyngiad sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr sy'n cytuno ers y cam diwethaf (cytunodd 28% nad oes digon o gymorth a chyngor o'i gymharu â 37% yng Ngham I).

Mae cytundeb â'r datganiad wedi gostwng yn sylweddol ym mhob is-grŵp yn y dadansoddiad (h.y. dynion a menywod, pob grŵp oedran ayb). Mae hwn yn newid calonogol mewn agweddau ac yn un y dylai ADDGOS ymchwilio iddo i weld a oes unrhyw bwyntiau dysgu neu arfer gorau yn y modd y datblygwyd yr agwedd hon ar bolisi a marchnata.

Defnyddio dyheadau i gymell unigolion i gymryd rhan mewn dysgu

Mae'r ymchwili yn dangos bod dyheadau grwpiau allweddol o unigolion yn newid dros amser, hyd yn oed mewn cyfnod o 12 mis. Fodd bynnag, yr hyn sy'n ddiddorol yw'r niferoedd cynyddol sy'n derbyn, mewn cyfnod o 12 mis, y bydd dysgu'n effeithio ar unigolion sy'n cyflawni eu dyheadau. Gallai fod yn werth i ADDGOS archwilio'n fewnol ac yn allanol yr hyn sydd wedi cyfrannu at y newid penodol hwn mewn agweddau er mwyn llywio arfer gorau ar gyfer marchnata yn y dyfodol.

Dymuniad i gynyddu gweithgareddau dysgu sy'n cael eu gwneud gyd phlant

Mae'r ymchwili ar gyfer 2005 yn dangos bod swm y gweithgareddau a wneir gyda phlant 3-7 oed ac 8 oed a throsodd yn aros yn uchel ac yn sefydlog dros amser. Yr hyn sy'n ddiddorol eleni yw yr ymchwiliodd yr arolwg i'r cwestiwn a hoffai rhieni wneud rhagor o weithgareddau gyda'u plant ac, os felly, pa weithgareddau. Hoffai'r mwyafrif helaeth o rieni wneud mwy. Efallai yr hoffai AADGOS ymchwilio i ai sbardun yw hyn am fwy o weithredu o ran annog dysgu mewn teuluoedd yng Nghymru a sut gallai hyn gael ei wneud.